# Ar y Traeth
## gan Anni Llŷn
## On the Beach

1. Roedd hi'n ddiwrnod braf o haf ym Myd Cyw ac roedd y criw wedi mynd i'r traeth. Roedden nhw'n barod am ddiwrnod gwych!

2. Ar ôl tipyn, roedd hi'n amser am hufen iâ. Aeth Cyw, Jangl, Bolgi a Triog i nôl un i bawb. Roedd angen saith hufen iâ i gyd!

3. Pan aeth y pedwar ffrind i nôl yr hufen iâ, pwy ddaeth heibio ond Ben Dant, y môr leidr. Roedd ganddo fap yn ei law.

4. "A-hoi, ffrindiau!" meddai Ben Dant.
"A-hoi, Capten!" atebodd Llew, Plwmp a Deryn.
"Beth wyt ti'n neud, Ben Dant?" holodd Llew.

5. Roedd Ben Dant wedi claddu trysor gwerthfawr ar y traeth, ond doedd o ddim yn cofio ble. Felly roedd am ddefnyddio'r map i ddod o hyd iddo.

6. "Dyna antur!" meddai Llew. "Gawn ni helpu?"
"Wrth gwrs!" atebodd Ben Dant. "Dewch â rhaw!"
Ac i ffwrdd â nhw gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y map

7. Roedd y map yn dangos bod angen mynd draw at y creigiau yn gyntaf, dringo drostynt yn ofalus a neidio i lawr yr ochr arall. Gwnaeth Ben Dant hynny, a gwnaeth Llew a Plwmp yr un fath.

8. Yna, roedd y map yn dangos bod angen cymryd saith cam tuag at y môr cyn neidio deg gwaith yn y dŵr. Gwnaeth Llew a Plwmp yr un fath â Ben Dant, a sblasio Deryn druan!

9. Ar ôl hynny, roedd angen cymryd wyth cam o'r môr i gyfeiriad arall, ar draws y tywod. A dyma nhw'n cyrraedd yn ôl i'r dechrau!

10. "Mae'r groes fan hyn!" meddai Ben Dant. Dechreuodd pawb dyllu. Yn sydyn, daeth Llew o hyd i gist drysor Ben Dant.
"Hwrê!" meddai pawb.

1. It was a beautiful summer day in the World of Cyw, and the crew had gone to the beach. They were ready for a great day!

2. After a while, it was time for ice cream. Cyw, Jangl, Bolgi, and Triog went to get one for everyone. They needed seven ice creams in total!

3. When the four friends went to get the ice cream, who should come by but Ben Dant, the pirate. He had a map in his hand.

4. "A-hoy, friends!" said Ben Dant.
"A-hoy, Captain!" replied Llew, Plwmp, and Deryn.
"What are you doing, Ben Dant?" asked Llew.

5. Ben Dant had buried some valuable treasure on the beach, but he couldn't remember where. So he wanted to use the map to find it.

6. "What an adventure!" said Llew. "Can we help?"
"Of course!" answered Ben Dant. "Bring a spade!"
And off they went, following the directions on the map.

7. The map showed that they first needed to go to the rocks, climb over them carefully, and jump down the other side. Ben Dant did that, and Llew and Plwmp did the same.

8. Then, the map showed they needed to take seven steps toward the sea before jumping ten times into the water. Llew and Plwmp did the same as Ben Dant, splashing poor Deryn!

9. After that, they had to take eight steps from the sea in another direction, across the sand. And there they were, back where they started!

10. "The cross is here!" said Ben Dant. Everyone started digging. Suddenly, Llew found Ben Dant's treasure chest.
"Hurray!" said everyone.